

CYNGOR TREF Y BALA

Swyddfa'r Cyngor, Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com



Cofnodion Cyfarfod Blynyddol o Gyngor Tref Y Bala

11eg o Fai 2017

Arwyddodd y Cyngorwyr Ddatganiadau derbyn swydd a Chôd Ymddygiad a chwblhawyd y Cofrestr Buddiant Cyngorwyr

Presennol: Y Maer, Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothi Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Cyngorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Eluned Jones, Alun Price

- 1 Mynegodd y Maer, Edith Eoberts, gydymdeimlad y Cyngor gyda Dilys Evans a gollodd ei chwaer yn frawychus o sydyn yn ddiweddar. Estynnodd groeso cynnes i Rhys Evans i'w gyfarfod cyntaf fel Cyngorydd Tref Y Bala. Roedd yn bleser ganddi estyn llongyfarchiadau i Glwb Pêl Droed Y Bala ar ford yn bencampwyr Cymru.

Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2016.

- 2 Etholwyd Dorothi Evans yn Faer am y flwyddyn 2017-18.
- 3 Etholwyd Sharon Evans yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2017-18.
- 4 Penodwyd Cyngorwyr i weithredu ar is bwyllgorau.
- 5 Enwebwyd Eluned Jones ac Ivora Jones yn gynrychiolwyr i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
- 6 Enwebwyd Alun Price, Dorothi Evans, ynghyd â Dilys Evans a John C Williams fel cynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.
- 7 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor.
- 8 Adolygwyd a chadarnhawyd Côt Ymddygiad y Cyngor.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

- 10 Adolygwyd a chadarnhawyd Polisiâu
- i. Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol 2017-18
 - ii. Strategaeth Buddsoddi'r Cyngor
 - iii. Defnydd o'r iaith Gymraeg
 - iv. Polisi Amgylcheddol
 - v. Polisi Cyfle Cyfartal
 - vi. Polisi Pryderon a Chwynion
 - vii. Polisi Rhyddid Gwybodaeth
- 11 Ystyriwyd mater Prydles Y Domen, i'w gadarnhau pan ddaw'r Brydles gan Gyngor Gwynedd.
- 12 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor. Cytunwyd i dynnu'r gliniadur a'r argraffydd o'r rhestr a'u gwaredu yn ol rheolau amgylcheddol.
- 13 Adolygwyd a y trefniadau yswiriant am a chytunwyd i'w cadarnhau pan ddaw'r wybodaeth am y flwyddyn 2017-18 gan y Cwmni Yswiriant.
- 14 Apwyntiwyd John Roberts CPFA yn Archwilydd Mewnol 2017-18.
- 15 Ystyriwyd Cyfrifon y flwyddyn 2016-17. Cymeradwywyd hwy i sylw'r Archwilydd Mewnol.
- 16 Derbyniwyd Cofrestr Presenoldeb 2016-17.
- 17 Cadarnhawyd Cofrestr Datganiadau Buddiant am y Flwyddyn 2016-17.
- 18 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2017-18.
- 19 Adroddiad y Maer ar y Flwyddyn 2016-17:** Diolchodd y Maer, Edith Roberts, am yr anrhydedd o gael arwain y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Bu'n bleser iddi gael cynrychioli'r Cyngor yn rhinwedd ei swydd a chyfeiriodd yn arbennig at fynychu achlysuron a drefnwyd gan y Lleng Brydeinig, cinio Nadolig Teulu'r Berwyn, cyngerdd blynyddol Côr Godre'r Aran, Cyfarfod y Clwb Rotari, cyfarfod ag Esgob de-dwyrain Tanganika ac agoriad swyddogol Ystafell Yogi yn y Clwb Rygbi a fydd yn adnodd ardderchog i'r gymuned yn ogystal ag i'r Clwb. Diolchodd i'r Clerc, a diolchodd hefyd i gymdogion Y Domen am eu gofal o ddiogelwch y Domen. Diolchodd i'r Cynghorwyr am eu hymddiriedaeth ynddi ac am eu parodrwydd bob amser i gydweithio er lles trigolion tref Y Bala.
- 20 Trosglwyddo'r Gadair ac arwisgo Maer 2017-18:** Cododd y Cyngor wrth i Edith Roberts dorsglwyddo'r gadwyn i'r Maer newydd, Dorothi Evans.

Dyddiadau Cyfarfodydd Cyngor Tref Y Bala 2017-18 a gynhelir yng Nghanolfan Henblas am 7.00pm:

11/5/17	14/12/17
1/6/17	4/1/18
6/7/17	8/2/18 yn cynnwys ystyried ceisiadau am gefnogaeth ariannol
7/9/17	1/3/18
5/10/17	5/4/18
2/11/17	